


YSGOLION YR 21^{AIN} GANRIF



Y CYNNIG YW CAU'R CHWECHED DOSBARTH YN YSGOL GYFUN ABERPENNAR A THROSGWLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYMUNEDOL ABERDÂR.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau yma hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

.

Tabl Cynnwys	Tudalen
Rhagarweiniad	
Ymgylgoreion	2
Y Broses Ymgynghori	4
Beth sydd i'w ystyried	5
Lleisio'ch Barn	5
Barn Plant a Phobl Ifainc	6
Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg	6
Adran 1 – Cefndir i'r Cynnig	
Y sefyllfa ar hyn o bryd... Ysgol Gyfun Aberpennar	7
Y sefyllfa ar hyn o bryd... Ysgol Gymunedol Aberdâr	11
Y sefyllfa ar hyn o bryd... Darpariaeth ôl-16 cyfrwng Saesneg yng Nghwm Cynon	14
Sail y Cynnig	15
Opsiynau Eraill a Gafodd eu Hystyried	17
Buddion ac Anfanteision, Risgiau a Ffactorau Lliniaru	18
Ble hoffen ni fod...	21
Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	23
Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	24
Trefniadau Derbyn Disgyblion	24
Adran 2 – Effaith Debygol y Cynnig	
Y Sail Addysgol ar gyfer y Cynnig	26
Effaith Debygol y Cynnig ar Ddisgyblion	27
Effaith Debygol y Cynnig ar y Staff	28
Gwybodaeth Estyn	29
Goblygiadau Ariannol y Cynnig	31
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	32
Gwybodaeth o ran Tir ac Adeiladau	33
Adran Tri – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	34
Atodiad A	Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
Atodiad B	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Atodiad C	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau'r chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 gan osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fydd dim disgyblion blwyddyn 12 newydd yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ym mis Medi 2025.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol:
 - Cyflwyno, neu derfynu, darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol.

Ymgynghoreion

Rydyn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu:
 - Ysgol Gyfun Aberpennar.
 - Ysgol Gymunedol Aberdâr.
 - Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru
 - Ysgol Gynradd Gymuned Abercynon
 - Ysgol Gynradd Caegarw
 - Ysgol Gynradd y Darren-las
 - Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói
 - Ysgol Gynradd Meisgyn
 - Ysgol Gynradd Pengeulan
 - Ysgol Gynradd Penrhiw-ceiber
 - Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
 - Ysgol Gynradd Ynys-boeth
 - Ysgol Gynradd Abernant
 - Ysgol Gynradd Parc Aberdâr
 - Ysgol Gynradd Blaengwawr
 - Ysgol Gynradd Cap-coch
 - Ysgol Gynradd Caradog
 - Ysgol Gynradd Cwmaman
 - Ysgol Gynradd Cwm-bach
 - Ysgol Gynradd Cwmdâr
 - Ysgol Gynradd Hirwaun
 - Ysgol Gynradd Llwydcoed
 - Ysgol Gynradd Maes-y-Deri
 - Ysgol Gynradd Pen-y-waun

- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:
 - Ysgol Gyfun Aberpennar.
 - Ysgol Gymunedol Aberdâr.
 - Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru
 - Ysgol Gynradd Gymuned Abercynon
 - Ysgol Gynradd Caegarw
 - Ysgol Gynradd y Darren-las
 - Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói
 - Ysgol Gynradd Meisgyn
 - Ysgol Gynradd Pengeulan
 - Ysgol Gynradd Penrhiw-ceiber
 - Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
 - Ysgol Gynradd Ynys-boeth
 - Ysgol Gynradd Abernant
 - Ysgol Gynradd Parc Aberdâr
 - Ysgol Gynradd Blaengwawr
 - Ysgol Gynradd Cap-coch
 - Ysgol Gynradd Caradog
 - Ysgol Gynradd Cwmaman
 - Ysgol Gynradd Cwm-bach
 - Ysgol Gynradd Cwmdâr
 - Ysgol Gynradd Hirwaun
 - Ysgol Gynradd Llwydcoed
 - Ysgol Gynradd Maes-y-deri
 - Ysgol Gynradd Pen-y-waun
- Disgyblion:
 - Ysgol Gyfun Aberpennar.
 - Ysgol Gymunedol Aberdâr.
- Cynghorau Cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig.
- Gweinidogion Cymru.
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal.
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái.
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff.
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De.
- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal.
- Menter Iaith.
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Comisiynydd y Gymraeg.
- Coleg y Cymoedd.

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 17 Ionawr 2025. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Chwefror 2025. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb fwrw golwg arno ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 5 y Ddogfen Ymgynghori yma.

Bydd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn trafod Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu – yn seiliedig ar yr adborth – a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebiadau yma ar gael i bawb fwrw golwg arno ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen 34 y Ddogfen Ymgynghori yma. O dan adran 50 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae angen i gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Fel y cyfryw, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn 35 diwrnod i ddiwedd cyfnod yr Hysbysiad Statudol ac anfon copïau o unrhyw wrthwynebiadau atyn nhw ynghyd ag Adroddiad Gwrthwynebiadau (lle bo angen). Yna, bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.

Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Beth sydd i'w ystyried?

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yma'n nodi'r rhesymeg dros y cynnig. Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth a rhoi gwybod i ni a ydych chi'n cefnogi'r cynnig yma ai peidio.

Lleisio'ch Barn

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda Chynghorau Ysgol, Cyrff Llywodraethu a staff a'r gymuned ehangach fel a ganlyn:

Lleisio'ch Barn			
Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Cyngor Ysgol			
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyngor Ysgol	8 Ionawr 2025 13:30	Ysgol Gyfun Aberpennar
Ysgol Gymunedol Aberdâr	Cyngor Ysgol	8 Ionawr 2025 13:30	Ysgol Gymunedol Aberdâr
Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff			
Ysgol Gyfun Aberpennar	Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff	11 Rhagfyr 2024 15:45	Ysgol Gyfun Aberpennar
Ysgol Gymunedol Aberdâr	Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff	11 Rhagfyr 2024 15:45	Ysgol Gymunedol Aberdâr
Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd			
Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol.		8 Ionawr 2025 15:30 tan 17:30	Ysgol Gyfun Aberpennar
		8 Ionawr 2025 15:30 tan 17:30	Ysgol Gymunedol Aberdâr

Mae Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghlwm ar dudalen 34 o'r Ddogfen Ymgynghori yma. Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael yn y cyfarfodydd sydd wedi'u nodi yn y tabl blaenorol ac ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'.

Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgynghoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgynghoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif Canolfan Menter y Cymoedd Parc Hen Lofa'r Navigation Abercynon CF45 4SN	NEU	CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk
---	------------	--

Dylai'r holl ohebiaeth ddod i law erbyn 5pm dydd Gwener 17 Ionawr 2025 fan bellaf.

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig oni bai fod cais arbennig i wneud hynny. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

Barn Plant a Phobl Ifainc

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn bwysig, a bod yn rhaid eu cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r plant a'r bobl ifainc sy'n mynychu:

- Ysgol Gyfun Aberpennar
- Ysgol Gymunedol Aberdâr

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Chynghorau Ysgol y ddwy ysgol i drafod y cynnig. Bydd y sesiynau ymgynghori yma'n cael cefnogaeth staff arbenigol mewn ysgolion i gefnogi disgyblion a chynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu. Bydd adborth o'r cyfarfodydd yma'n cael eu coladu a'u crynhoi a'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori i'w cyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w drafod unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Fel sy wedi'i nodi yng [Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru \(Ail Argraffiad\) \(011/2018\)](#), mae'n ofynnol inni gyhoeddi Asesiadau Effaith ar y Gymuned, Effaith ar y Gymraeg ac Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u paratoi fel atodiadau i'r Ddogfen Ymgynghori yma:

- Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Adran 1 – Cefndir i'r Cynnig

Y sefyllfa ar hyn o bryd... Ysgol Gyfun Aberpennar

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 19 oed yw Ysgol Gyfun Aberpennar, sydd wedi'i lleoli ar Heol Newydd, Aberpennar gyda lle i 1,394 o ddisgyblion (blwyddyn 7 i 13).

Cafodd adeiladau Ysgol Gyfun Aberpennar eu hadeiladu rhwng 1967 a 1990. Mae'r safle yn cynnwys pedwar adeilad ar wahân –prif adeilad tri llawr sy'n gartref i'r bloc addysgu, a 3 storfa unllawr allanol. Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gafodd ei gynnal gan y Cyngor ym mis Mehefin 2024, mae Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, a gradd B o ran addasrwydd, lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon. Mae'r ysgol yn gadarn ac yn weithredol ddiogel.

Mae'r ffigur ar gyfer ôl-groniad gwaith cynnal a chadw Ysgol Gyfun Aberpennar werth tua £1.4 miliwn. Mae'r ffigur yma'n cynrychioli cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw y nodwyd ei fod yn ofynnol. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol ar safle'r ysgol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda gwerth £3 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn ffenestri newydd, toeon newydd, systemau gwresogi newydd ac uwchraddio trydanol gan gynnwys cynlluniau goleuo ynni effeithlon newydd. Mae'r ffens diogelwch o amgylch y safle hefyd wedi'i uwchraddio'n llawn.

Mae'r safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n rhannol â'r [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) ac wedi'u graddio'n B o ran hygyrchedd, sy'n golygu bod rhai materion angen eu gwella ymhellach.



Ysgol Gyfun Aberpennar o'r tu allan.

Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos roedd 899 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ac 82 o ddisgyblion y chweched dosbarth yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar ym mis Ionawr 2024. Mae'r tabl 1 yn amlinellu nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academiaidd ddiwethaf. Caiff nifer y disgyblion chweched dosbarth ar gyfer pob blwyddyn academiaidd ei ddangos ar wahân.


Tabl 1: Nifer gwirioneddol y disgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd ddiwethaf (CYBLD)

Disgyblion	Blwyddyn Academaidd				
	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Disgyblion Oed Ysgol Statudol (blwyddyn 7 i 11)	885	929	928	900	899
Disgyblion y Chweched Dosbarth	88	90	95	83	82
Cyfanswm	973	1019	1023	983	981

Mae'r data'n dangos, rhwng blyneddau academaidd 2019/2020 a 2023/2024:


- Bod nifer y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi aros yn weddol gyson, gan gynyddu 1.6% (14) o 885 i 899.
- Bod nifer y disgyblion chweched dosbarth sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi gostwng 6.8% (6) o 88 i 82.
- Bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi aros yn weddol gyson, gan gynyddu 0.8% (8) o 973 i 981.

Mae ffigur 1 yn dangos nifer y disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y deng mlynedd diwethaf.



Mae'r graff yn dangos, yn ystod y cyfnod yma, fod nifer y disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng yn sydyn 43% (62) o 144 yn 2014/15 i 82 yn 2023/24.

Dengys ffigur 2 ganran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y deng mlynedd diwethaf.



Mae'r graff yn dangos, yn ystod y cyfnod yma, fod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth wedi mwy na haneru o 60.9% yn 2014/15 i 29.7% yn 2023/24.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24, mynychodd 899 o ddisgyblion oedran ysgol statudol Ysgol Gyfun Aberpennar. Mae'r tabl 2 isod yn amlinellu nifer y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn ôl ysgol uwchradd eu dalgylch.

Tabl 2 Nifer y Disgyblion Oed Ysgol Statudol sy'n Mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn ôl Ysgol Ddalgylch		
Ysgol Uwchradd y Dalgylch	Nifer y Disgyblion Oed Ysgol Statudol sy'n Mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar.	Nifer y disgyblion ôl-16 sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar
Ysgol Gyfun Aberpennar	778	74
Ysgol Gymunedol Aberdâr	104	7
Dim (disgyblion y tu allan i'r sir)	12	1
Ysgol Uwchradd Pontypridd	4	
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	1	
Cyfanswm	899	82

Mae'r data'n dangos bod:

- 86.5% (778) o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn byw yn nalgylch yr ysgol.
- 13.5% (121) o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar, yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.
- Yr ysgol sydd â'r ganran uchaf o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn hytrach na'u hysgol ddalgylch yw Ysgol Gymunedol Aberdâr, gyda 11.6% (104).

Mae tabl 3 isod yn amlinellu rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion oedran ysgol statudol a disgyblion y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd nesaf. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

Tabl 3: Rhagolygon o ran Niferoedd y Disgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar Dros y Pum Mlynedd Academaidd nesaf									
Disgyblion	Nifer y lleoedd	Blwyddyn Academaidd						Cyfanswm o leoedd gwag yn 2028/2029	
		Gwir ffigur	Amcanestyniadau						
		2023/24 (CYBLD)	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	Nifer	%
Disgyblion Oed Ysgol Statudol	1,394	899	868	878	880	892	857		
Disgyblion y Chweched Dosbarth		82	90	84	80	78	82		
Cyfanswm	1,394	981	958	962	960	970	939	455	32.6%

- Mae'r data'n dangos erbyn blwyddyn academaidd 2028/29, rhagwelir y bydd 32.6% (455) o leoedd dros ben yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

Serch hynny, mae hefyd yn berthnasol nodi bod y rhagamcanion disgyblion yn Nhabl 3 wedi'u cyfrifo cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyfredol. Mae niferoedd gwirioneddol y disgyblion ar gyfer 2024/25 bellach yn hysbys, ac ym mis Hydref 2024, dim ond 72 o ddisgyblion chweched dosbarth oedd yn Ysgol Gyfun Aberpennar, sy'n sylweddol is (20%) na'r ffigur rhagamcanol o 90. O'r rhain, mae 30 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 42 ym mlwyddyn 13.

Mae gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn cadarnhau bod Ysgol Gyfun Aberpennar, ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, wedi darparu 11 opsiwn pwnc chweched dosbarth ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 a 10 ar gyfer disgyblion blwyddyn 13. Dyma'r nifer isaf o opsiynau pwnc a gynigir o'r tair ysgol sy'n ymwneud â threfniadau'r consortia.

Y sefyllfa ar hyn o bryd... Ysgol Gymunedol Aberdâr

Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg 11 i 19 oed sydd wedi'i lleoli ar Heol yr Ynys, Aberdâr gyda lle i 1,574 o ddisgyblion. Roedd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach yn lleol, lle cafodd Canolfan Hamdden Sobell gerllaw fuddsoddiad sylweddol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned.

Gan fod Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol newydd, a gafodd ei hadeiladu yn 2014, mae wedi'i graddio'n A o ran ei chyflwr a gradd A o ran addasrwydd. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu i fodloni'r safonau a'r rheoliadau gofynnol, gan ddarparu amgylchedd addysgu a dysgu'r 21^{ain} ganrif.

Mae safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.


Mae data CYBLD yn dangos roedd 1,161 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 124 o ddisgyblion chweched dosbarth yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr ym mis Ionawr 2024. Mae tabl 4 yn amlinellu nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academiaidd ddiwethaf. Caiff nifer y disgyblion chweched dosbarth ar gyfer pob blwyddyn academiaidd ei ddangos ar wahân.

Tabl 4: Nifer Gwirioneddol y Disgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr Dros y Pum Mlynedd Academiaidd ddiwethaf (data CYBLD)					
Disgyblion	Blwyddyn Academiaidd				
	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Disgyblion Oed Ysgol Statudol (blwyddyn 7 i 11)	1,139	1,148	1,152	1,155	1,161
Disgyblion y Chweched Dosbarth	156	161	166	153	124
Cyfanswm	1,295	1,309	1,318	1,308	1,285

Mae'r data'n dangos, rhwng blynyddoedd academiaidd 2019/20 a 2023/24:


- Bod nifer y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi aros yn weddol gyson, gan gynyddu 1.9% (22) o 1,139 i 1,161.
- Bod nifer y disgyblion chweched dosbarth sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi gostwng yn sylweddol 20.5% (32) o 156 i 124.
- Bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi aros yn gyson, gan ostwng 0.8% (10) o 1,295 i 1,285.

Mae ffigur 3 yn dangos nifer y disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr dros y deng mlynedd diwethaf.



Mae'r graff yn dangos, yn ystod y cyfnod yma, fod nifer y disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng yn sydyn 46% (105) o 229 yn 2014/15 i 124 yn 2023/24.

Mae Ffigur 4 yn dangos canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ers agor yr ysgol.



Mae'r graff yn dangos bod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn ystod y cyfnod yma wedi gostwng yn sylweddol o 58.4% yn 2015/16 i 30.6% yn 2023/24.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24, mynychodd 1,161 o ddisgyblion oedran ysgol statudol Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae tabl 5 yn amlinellu nifer y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ôl ysgol uwchradd eu dalgylch.

Tabl 5: Nifer y Disgyblion Oed Ysgol Statudol sy'n Mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ôl eu Hysgol Ddalgyloch		
Ysgol Uwchradd y Dalgyloch	Nifer y Disgyblion Oed Ysgol Statudol sy'n Mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr	Nifer y disgyblion ôl-16 sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr
Ysgol Gymunedol Aberdâr	1,110	118
Ysgol Gyfun Aberpennar	33	2
Dim (disgyblion y tu allan i'r sir)	15	4
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	1	
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	1	
Ysgol Gyfun Treorci	1	
Cyfanswm	1,161	124

Mae'r data'n dangos bod:

- 95.6% (1,110) o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn byw yn nalgyloch yr ysgol.
- 4.4% (51) o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn byw y tu allan i ddalgyloch yr ysgol.
- Yr ysgol sydd â'r ganran uchaf o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn hytrach na'u hysgol ddalgyloch yw Ysgol Gyfun Aberpennar, gyda 2.8% (33).

Mae tabl 6 yn amlinellu'r rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion oedran ysgol statudol a'r disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr dros y pum mlynedd academaidd nesaf. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

Tabl 6: Rhagolygon o ran Niferoedd y Disgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr Dros y Bum Mlynedd Academaidd nesaf									
Disgyblion	Nifer y lleoedd	Blwyddyn Academaidd						Cyfanswm o leoedd gwag yn 2028/2029	
		Gwir ffigur	Amcanestyniadau						
		2023/24 (CYBLD)	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	Nifer	%
Disgyblion Oed Ysgol Statudol	1,574	1,161	1,147	1,138	1,113	1,114	1,111		
Disgyblion y Chweched Dosbarth		124	124	135	141	135	133		

Cyfanswm	1,574	1,285	1,271	1,273	1,254	1,249	1,244	330	21.0%
-----------------	--------------	--------------	--------------	--------------	--------------	--------------	--------------	------------	--------------

- Mae'r data'n dangos erbyn blwyddyn academaidd 2028/29, rhagwelir y bydd 21.0% o leoedd dros ben yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Mae'n berthnasol hefyd i nodi bod y rhagamcanion niferoedd disgyblion yn Nhabl 6 wedi'u cyfrifo cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyfredol. Mae niferoedd gwirioneddol y disgyblion ar gyfer 2024/25 bellach yn hysbys, ac ym mis Hydref 2024, roedd 119 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, ychydig yn is na'r rhagamcan. O'r rhain mae 63 ym mlwyddyn 12 a 56 ym mlwyddyn 13.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, cynigiodd Ysgol Gymunedol Aberdâr 15 opsiwn pwnc ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 ac 16 opsiwn ar gyfer disgyblion blwyddyn 13. Mae hwn yn gynnig llawer mwy na'r hyn a gynigir yn Ysgol Gymunedol Aberpennar fel sydd wedi'i fanylu uchod.

Y sefyllfa ar hyn o bryd... Darpariaeth ôl-16 cyfrwng Saesneg yng Nghwm Cynon

Mae'r disgwyliadau ar gyfer y Cwricwlwm 16 i 19 presennol yng Nghymru wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000), Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a chanllawiau cysylltiedig. Ym mhob awdurdod lleol, dylai cynnig cwricwlwm gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau cymwys a gaiff eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru ar lefel 3, yn cynnwys gwahanol elfennau ond gydag o leiaf pum cwrs cyffredinol a phum cwrs galwedigaethol o'r pum maes dysgu canlynol: mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg; busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith; gwasanaethau i bobl; celfyddydau, cyfryngau, diwylliant ac ieithoedd; a'r dyniaethau, y gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith.

Mewn ymateb i hyn, ac i fynd i'r afael â phwysau ariannol niferoedd bach o ddisgyblion chweched dosbarth, mae trefniadau cydweithredol cryf wedi'u sefydlu rhwng yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghwm Cynon i sicrhau bod arlwy cwricwlwm ôl-16 eang a chytbwys yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Mae Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon yn cynnwys Ysgol Gyfun Aberpennar, Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r ystod lawn o gyrsiau ôl-16 a gyflwynir ar draws y tair ysgol ar gael i bob disgybl, gyda disgyblion yn teithio rhwng safleoedd ysgol yn ôl yr angen. Er bod Ysgol Gyfun Aberpennar yn darparu nifer fach o ddewisiadau pwnc yn rhan o'r cynnig cydweithredol, mae'n dibynnu'n fawr ar yr ysgolion eraill i gael mynediad i lawer o ddewisiadau pwnc ôl-16 gan mai'r ysgol(ion) â'r galw mwyaf sy'n cynnal y cwrs yn gyffredinol.

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24, mynychodd 84 o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar. O'r rhain:

- Roedd gan 29 (35%) statws cofrestriad sengl, sy'n golygu eu bod yn derbyn eu holl addysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.
- Roedd gan 55 (65%) statws cofrestriad deuol, sy'n golygu eu bod yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar a rhywfaint mewn ysgol arall. Yn benodol:
 - Roedd 24 o ddisgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.
 - Roedd 21 o ddisgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.
 - Roedd 10 disgybl a oedd yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24, roedd 125 o ddisgyblion chweched dosbarth yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr. O'r rhain:

- Roedd gan 88 (70%) statws cofrestriad sengl, sy'n golygu eu bod yn derbyn eu holl addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.
- Roedd gan 37 (30%) statws cofrestriad deuol, sy'n golygu eu bod yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr a rhywfaint mewn ysgol arall. Yn benodol:
 - Roedd 18 o ddisgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.
 - Roedd 15 o ddisgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.
 - Roedd 4 disgybl a oedd yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr fel eu prif ysgol yn derbyn rhywfaint o'u haddysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod mwyafrif (65%) o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn teithio i ysgolion eraill yn yr ardal i gael rhywfaint o'u haddysg, tra bod y ffigwr cyfatebol ar gyfer Ysgol Gymunedol Aberdâr yn is ar 30%.

Sail y Cynnig

Mae'r ymgynghoriad yma wedi'i ddatblygu yn dilyn trafodaethau rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgol. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd gohebiaeth gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant oddi wrth Gorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Aberpennar yn mynegi pryderon a rennir ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol, a chais i'r Cyngor gynnal adolygiad.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) ddyletswydd statudol yn rhan o'i ddull trefniadaeth ac arwain ysgolion i gynnal effeithlonrwydd ac

effeithiolrwydd y ddarpariaeth, a hynny er mwyn sicrhau bod pob ysgol mewn sefyllfa dda i ddarparu addysg o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y gymuned ac yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Mae rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd rhagorol o ran moderneiddio ei ysgolion, bodloni a rhesymoli'r galw am leoedd ysgol, sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a sicrhau bod y portffolio addysg yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni deilliannau addysgol cadarnhaol ac i helpu'r Cyngor i gyflawni ei dargedau lleihau carbon.

Hyd yn hyn, mae'r data a gafodd ei ddarparu yn y Ddogfen Ymgynghori yma wedi dangos bod niferoedd disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng yn sylweddol yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr dros y degawd diwethaf, gyda llai o ddisgyblion blwyddyn 11 yn dewis dychwelyd i'r ysgolion ar gyfer darpariaeth ôl-16.

Yn 2014/15, roedd 144 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a 229 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr; cyfanswm o 373 o ddisgyblion chweched dosbarth ar draws y ddwy ysgol. Yn 2023/24, roedd 82 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a 124 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr; cyfanswm o 206 o ddisgyblion chweched dosbarth ar draws y ddwy ysgol. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae nifer cyfunol y disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng 45% (167).

Mae hefyd yn berthnasol nodi y cyfrifwyd rhagamcanion niferoedd disgyblion yn Nhabl 3 a Thabl 6 cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyfredol. Mae niferoedd gwirioneddol y disgyblion ar gyfer 2024/25 bellach yn hysbys, ac ym mis Hydref 2024, roedd 119 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, felly roedd y rhagamcan ychydig yn uwch na'r nifer gwirioneddol ar y gofrestr. Serch hynny, dim ond 72 o ddisgyblion chweched dosbarth oedd yn Ysgol Gyfun Aberpennar, sy'n sylweddol is (20%) na'r ffigur rhagamcanol o 90.

Mae niferoedd isel o ddisgyblion chweched dosbarth fel y rhain yn cyfyngu ar ystod y cyrsiau ôl-16 y mae modd i ysgolion eu cynnig, ac yn aml yn arwain at ddosbarthiadau bach. Nid yw cyflwyno darpariaeth ôl-16 yn y modd yma yn gost-effeithiol ac yn arwain at ysgolion yn dargyfeirio cyllid a fwriedir ar gyfer addysg disgyblion oedran statudol (blynyddoedd 7 i 11) i fodloni'r diffyg o ran darparu darpariaeth ôl-16. Mae modd i ddosbarthiadau bach hefyd leihau effeithiolrwydd addysgu a dysgu, wrth i gyfleoedd i ddisgyblion ryngweithio â'u cyfoedion leihau. Mae rhagor o wybodaeth am yr effeithiau ariannol ac addysgol yma wedi'u darparu yn ddiweddarach yn y ddogfen yma.

Mae Ysgol Gyfun Aberpennar wedi gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion partner Consortiwm Cwm Cynon i gryfhau ehangder y cwricwlwm a'r dewis sydd ar gael i ddisgyblion, ac mae hyn i'w ganmol. Serch hynny, byddai cynnal y trefniant presennol yn cyflwyno heriau cyllidebol sylweddol i Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn y tymor hwy. Byddai sefydlu chweched dosbarth mwy yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn darparu ystod ehangach o gynigion a chyfleoedd, yn gwella ansawdd y profiad addysgol, ac yn cryfhau hyfywedd ariannol a

chynaliadwyedd wrth symud ymlaen mewn amgylchedd o newid cyflym a phwysau cynyddol i wella safonau a chyfleoedd dysgu.

Opsiynau Eraill a Gafodd eu Hystyried

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), cafodd opsiynau eraill eu nodi a'u hystyried yn ymwybodol. Caiff buddion ac anfanteision pob opsiwn a gafodd eu diystyru i'w gweld yn y tabl canlynol:

Tabl 7: Dadansoddiad o opsiynau amgen		
Opsiwn	Buddion	Anfanteision
Cadw'r sefyllfa bresennol – parhau i gynnig darpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr.	<ul style="list-style-type: none"> • Dim amharu ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid nac aelodau o staff. • Dim cynnydd i gost darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau i fod yn anhyfyw yn ariannol, felly byddai cyllid a fwriedir ar gyfer disgyblion oedran statudol yn parhau i gael ei ddargyfeirio i leihau cost cyflwyno darpariaeth ôl-16. • Mae nifer isel y disgyblion a dosbarthiadau bach yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ryngweithio, gan leihau effeithiolrwydd addysgu a dysgu a gwanhau profiad y chweched dosbarth. • Byddai y mwyafrif o'r disgyblion yn parhau i fod angen teithio rhwng safleoedd ysgol i gael mynediad at gyrsiau, gan leihau amser astudio annibynnol.
Cyfuno Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr o dan un pennaeth ac un Corff Llywodraethu.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar y ddau safle ysgol; • Byddai cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da yn cynyddu. • Ychydig o amharu ar ddisgyblion, 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau i fod yn anhyfyw yn ariannol, felly byddai cyllid a fwriedir ar gyfer disgyblion oedran statudol yn parhau i gael ei ddargyfeirio i leihau cost cyflwyno darpariaeth ôl-16.

	<p>rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o staff;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim cynnydd i gost y ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai rheoli dau safle yn heriol a gallai arwain at rai costau arwain ychwanegol. • Byddai arbedion ariannol dibwys yn cael eu gwireddu. • Effaith ar staff gan na fyddai angen cyflawni pob rôl ar y ddau safle.
<p>Dileu darpariaeth chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai manteision ariannol peidio â darparu darpariaeth ôl-16 yn cael eu gwireddu ar draws y ddau safle ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen i ddisgyblion deithio ymhellach i gael mynediad at ddarpariaeth ôl-16. • Byddai cost cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu. • Mwy o effaith ar aelodau o staff gan na fyddai angen rhai swyddi yn y ddwy ysgol mwyach.

Manteision ac Anfanteision, Risgiau a Ffactorau Lliniaru

Mae'n anochel y bydd unrhyw gynnydd sy'n cynnwys ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrion trwy gydol y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnydd, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Mae Tabl 8 yn nodi manteision ac anfanteision y cynnydd, ynghyd â manylion unrhyw risgiau posibl a sut y mae modd eu lliniaru.

Tabl 8: Manteision ac Anfanteision, Risgiau a Ffactorau Lliniaru
Manteision
Byddai un chweched dosbarth mwy yn cael ei sefydlu, gan alluogi cyflwyno darpariaeth ôl-16 yn fwy cost-effeithiol.
Byddai cynnydd cwricwlwm ôl-16 gwell yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol a Safon Uwch/Lefel A.
Byddai pob disgybl yn y ddwy ysgol yn elwa o'r cynnydd yma gan y byddai adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gyfrannu at y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn cael eu hailgyfeirio er budd disgyblion 11 i 16 oed sy'n cael mynediad at addysg statudol.
Byddai'r cynnydd cwricwlwm gwell yn creu mwy o ddewis i bob person ifanc ddewis y llwybrau dysgu mwyaf priodol sy'n bodloni eu hanghenion galwedigaethol a/neu academaidd orau, gan arwain at ddeilliannau gwell.

Byddai cael gwared ar y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn rhoi mwy o sefydlogrwydd addysgol ac ariannol, a fydd o fudd i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11 a gwella deilliannau addysgol yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr.			
Byddai dosbarthiadau ôl-16 mwy yn fwy hyfyw yn ariannol ac yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio gwerthfawr rhwng disgyblion. Mae dosbarthiadau bach yn arwain at gyfyngu ar rhyngweithio rhwng myfyrwyr, sy'n lleihau effeithiolrwydd y dysgu. Mae dosbarthiadau mwy yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn gwella effeithiolrwydd, wrth i gyfleoedd disgyblion a rhyngweithiadau myfyrwyr gynyddu.			
Mae cynnig cwricwlwm ehangach yn debygol o annog mwy o ddisgyblion blwyddyn 11 i ddychwelyd i'r chweched dosbarth ac arwain at ragor o ymgysylltu a chynnydd yn eu dilyniant i addysg uwch, cyflogaeth a hyfforddiant.			
Gallai fod cynnydd mewn cyfranogiad ôl-16 gan y rhagwelir y byddai gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i Ysgol Gymunedol Aberdâr, a allai fod yn gymhelliant.			
Byddai llai o deithio rhwng safleoedd yn rhoi mwy o amser i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu annibynnol a hyrwyddo profiad ôl-16 mwy cadarnhaol a mwy o ymdeimlad o berthyn.			
Byddai mwy o ddisgyblion ôl-16 yn cael y cyfle i elwa o amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer y 21 ^{ain} ganrif yn Ysgol Gyfun Aberpennar.			
Byddai gwell cyfleoedd arweinyddiaeth i staff sy'n dymuno arbenigo mewn addysg ôl-16, a mwy o gyfleoedd i staff rannu sgiliau ac arbenigedd ar draws carfanau mwy.			
Anfanteision			
Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion ôl-16 efallai'n teimlo'n bryderus ar y dechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd i gwblhau eu hastudiaethau ôl-16. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion yr effeithir arny'n nhw gan Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgysylltu ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff.			
Byddai angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynychu'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.			
Byddai'r gost i'r Cyngor o ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu gan y rhagwelir y byddai gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i Ysgol Gymunedol Aberdâr.			
Peryglon	Tebygolrwydd	Effaith	Cam(au) Lliniaru
Strwythur Staffio – Mae'n bosibl na fyddai angen rhai swyddi yn Ysgol Gyfun Aberpennar mwyach ar ôl rhoi'r cynnig ar waith.	Canolig	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan y Cyngor bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Byddai Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gyfun Aberpennar a'u

			<p>gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r Cyngor yn argymhell bod unrhyw swyddi ychwanegol a gaiff eu creu yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cael eu clustnodi ar gyfer staff Ysgol Gyfun Aberpennar yr effeithir arnyn nhw gan y cynnig.
<p>Cynnydd o ran Traffig – Cynnydd o ran traffig o ganlyniad i'r cynnig.</p>	Isel	Isel	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai capasiti yn y rhwydwaith lleol i ymdopi â chynnydd mewn symudiadau traffig. Yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, canolbwyntiwyd yn benodol ar wella'r trefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys gwell parcio i aelodau o staff a chreu man gollwng pwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. • Dylid cadw cyn lleied â phosibl o symudiadau traffig gan y rhagwelir y byddai gan fwyafrif y disgyblion chweched dosbarth yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i Ysgol Gymunedol Aberdâr.
<p>Effaith ar y Gymuned – mae cael gwared ar y chweched dosbarth yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.</p>	Isel	Isel	<ul style="list-style-type: none"> • Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y safle Ysgol Gyfun Aberpennar presennol yn parhau i ddarparu addysg uwchradd i ddisgyblion rhwng 11 ac

			<p>16 oed. Fel y cyfryw, mae unrhyw effaith ar y gymuned yn debygol o fod yn gymharol fach.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fel sydd wedi'i nodi yng <u>Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u>, mae'n ofynnol cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Rydyn ni wedi llunio'r asesiad ac wedi'i atodi i'r Ddogfen Ymgynghori yma. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.
--	--	--	---

Ble hoffem ni fod...

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gaiff ei nodi yn y Ddogfen Ymgynghori yma, mae'r Cyngor yn cynnig cau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar gyda disgyblion chweched dosbarth yn trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, ni fyddai dim disgyblion blwyddyn 12 newydd yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ar ôl mis Medi 2025. Byddai'r disgyblion hynny sydd yn y chweched dosbarth ar hyn o bryd yn parhau â'u hastudiaethau yn Ysgol Gyfun Aberpennar o dan y trefniadau presennol.

Byddai rhoi'r cynnig yma ar waith yn caniatáu i'r Cyngor ddisodli dau chweched dosbarth bach, aneffeithlon gydag un ddarpariaeth mwy o faint a mwy cynaliadwy gan gynnig cwricwlwm ehangach. Byddai hyn yn cael effaith ariannol gadarnhaol ar y ddwy ysgol. Byddai trefniadau Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon yn parhau rhwng Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at y dewis ehangaf posibl o gyrsiau. Serch hynny, rhagwelir y byddai'r angen i ddisgyblion deithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol yn llawer llai, o ystyried yr ystod eang o gyrsiau a fyddai ar gael ym mhob ysgol.

Mae tabl 9 yn cynnwys y rhagolygon o ran nifer cyfunol y disgyblion oedran ysgol statudol a'r disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, ynghyd â nifer y disgyblion chweched dosbarth a ragwelir yn Ysgol Gyfun Aberpennar, dros y pum mlynedd academaidd nesaf. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

Tabl 9: Rhagamcan o niferoedd disgyblion dros y pum mlynedd nesaf – Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Gyfun Aberpennar (Chweched dosbarth yn unig)

Disgyblion	Capasiti (Aberdar)	Blwyddyn Academaidd						Lleoedd Gwag yn 2028/29	
		Gwir ffigwr	Amcanestyniadau						
		2023/24 (CYBLD)	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	Rhif	%
Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Aberdar)	1,574	1,161	1,147	1,138	1,113	1,114	1,111		
Disgyblion y Chweched Dosbarth (Aberdar)		124	124	135	141	135	133		
Disgyblion y Chweched Dosbarth (Aberpennar)		82	90	84	80	78	82		
Cyfanswm	1,574	1,367	1,361	1,357	1,334	1,327	1,326	248	15.8%

Mae'r data'n dangos bod:

- Mae digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer holl ddarpar ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar.
- Byddai'r lleoedd gwag rhagamcanol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gostwng o 21.0% (gweler Tabl 6) i 15.8% pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.

Lluniau o Ysgol Gymunedol Aberdâr

Mae lluniau o Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'u cynnwys isod.



Ysgol Gymunedol Aberdâr o'r tu allan.



Y tu mewn i Ysgol Gymunedol Aberdâr.



Y tu mewn i Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Ddosbarthiadau Cymorth/Cynnal Dysgu (CCD) yn Ysgol Gyfun Aberpennar, fodd bynnag, mae sefydlu CCD newydd yn ganolbwynt i ymgynghoriad statudol parhaus. Mae dau ddosbarth cynnal dysgu ADY ar gyfer anhwylder y sbectrwm awtistig yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae gan Ysgol Gyfun Aberpennar 25 o ddisgyblion oed ysgol statudol ag ADY a 0 disgybl chweched dosbarth ag ADY. Mae gan Ysgol Gymunedol Aberdâr 73 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ag ADY a 2 o ddisgyblion chweched dosbarth ag ADY, ac mae anghenion corfforol gan 7 ohonyn nhw. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth i ddisgyblion a gaiff ei ddarparu gan garfan Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn parhau a fyddai hynny ddim yn cael ei effeithio.

Cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, mae'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys cael darpariaethau megis ystafelloedd hylendid ar gyfer y rhai a allai fod angen eu defnyddio. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau barhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu hardal ac ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Fel y cyfryw, bydd yr angen am unrhyw ddosbarthiadau cynnal dysgu ADY ychwanegol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn parhau i gael ei adolygu a, phe bai angen rhagor yn y dyfodol, byddai digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i fodloni hyn.

Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'i dylunio gyda mannau hyblyg i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer addysgu a dysgu mewn grwpiau llai, mannau ar gyfer ymyrraeth, ac i ddarparu cymorth un i un lle bo angen.

Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae modd gweld a lawrlwytho Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/relateddocuments/WESPJune2022.pdf>

Mae saith deiliant yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth bontio o un Cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
- Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cefnogi'r nod yma trwy gymryd rhan mewn mentrau fel 'Criw Cymraeg', ac mae Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn annog disgyblion i ddefnyddio Cymraeg achlysurol lle bynnag y bo modd.

Fel sy wedi'i nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'n ofynnol cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Rydyn ni wedi llunio'r asesiad ac wedi'i atodi i'r Ddogfen Ymgynghori yma. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Trefniadau Derbyn Disgyblion

Mae ysgolion yn rheoli eu lleoedd eu hunain ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ac yn penderfynu ar y meini prawf derbyn. Mae'r Cyngor yn pennu'r dalgylchoedd ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth er mwyn penderfynu pa ddisgyblion fydd yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, mae gan ddisgyblion y dewis i barhau i astudio yn chweched dosbarth eu dalgylch neu astudio

yngholeg y Cymoedd sy'n cynnig cwricwlwm academaidd a galwedigaethol eang.
Bydd y dewis yma'n parhau pe bai'r cynigion yma'n cael eu rhoi ar waith.

Adran 2 – Effaith Debygol y Cynnig

Y Sail Addysgol ar gyfer y Cynnig

Dylai cynigion yn ymwneud â newidiadau sefydliadol ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y gallai unrhyw newid eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwella safonau'n gyffredinol, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifainc, a allai gael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Fel y dangosir yn Ffigur 1 a Ffigur 3 yn gynharach yn y ddogfen yma, mae data CYBLD yn dangos roedd 144 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn 2014/15 a 229 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr; cyfanswm o 373 o ddisgyblion chweched dosbarth ar draws y ddwy ysgol. Yn 2023/24, dim ond 82 o ddisgyblion chweched dosbarth oedd yn Ysgol Gyfun Aberpennar a 124 o ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr; cyfanswm o 206 o ddisgyblion chweched dosbarth ar draws y ddwy ysgol. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae nifer cyfunol y disgyblion chweched dosbarth felly wedi gostwng 45% (167).

Byddai ad-drefnu'r chweched dosbarth bach sy'n bodoli yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr ar hyn o bryd yn diwallu anghenion addysgol disgyblion yn well drwy gryfhau trefniadau rheoli, gwella'r defnydd effeithlon o adnoddau, ac yn ei dro yn cyflwyno arlwy cwricwlwm ehangach gan wella ansawdd y profiad addysgol.

Nid yw'r dosbarthiadau ôl-16 bach a geir yn y ddwy ysgol yn gost-effeithiol, ac mae modd iddyn nhw arwain at ryngweithio cyfyngedig rhwng disgyblion, a all leihau effeithiolrwydd addysgu a dysgu. Ym mlwyddyn academiaidd 2023/24, cyflwynwyd naw cwrs yn Ysgol Gyfun Aberpennar a chynhaliwyd chwe chwrs yn Ysgol Gymunedol Aberdâr gyda llai na phum disgybl ar bob cwrs.

Mae trefniadau cydweithredol cryf wedi'u sefydlu rhwng yr ysgolion yng Nghwm Cynon i sicrhau bod cwricwlwm ôl-16 eang a chytbwys yn cael ei darparu'n effeithiol. Mae'r niferoedd bach o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi golygu eu bod yn dibynnu'n helaeth ar yr ysgolion eraill i gael mynediad i lawer o ddewis o ran pynciau ôl-16, gan mai'r ysgolion â'r galw mwyaf sy'n cynnal y cyrsiau yn gyffredinol. Serch hynny, mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn darparu nifer fach o ddewisiadau o ran pynciau yn rhan o'r cynnig cydweithredol.

Mae ansawdd y profiad addysg yma i ddisgyblion hefyd yn effeithio ar nifer y disgyblion sy'n parhau â'u haddysg ôl-16. Mae Ffigur 2, yn gynharach yn y ddogfen yma, yn dangos bod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi mwy na haneru dros y degawd diwethaf, o 60.9% yn 2014/15 i 29.7% yn 2023/24 dros y degawd diwethaf. Mae Ffigur 4 yn dangos bod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr hefyd wedi gostwng yn sylweddol o 58.4% yn 2015/16 i 30.6% yn 2023/24.

O dan y trefniadau presennol, mae rhai disgyblion ôl-16 yn cael mynediad at eu haddysg ar draws tri safle ysgol sy'n effeithio ar amser astudio gwerthfawr. Mae'n bosibl y gallai'r teithio helaeth sydd ynghlwm â chael mynediad at gyrsiau ôl-16 mewn mwy nag un safle ysgol fod yn rhwystyr i ddisgyblion rhag symud ymlaen i addysg ôl-16 yn yr ysgol, gan gael effaith andwyol ar gadw disgyblion a symud ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch.

Byddai pob disgybl yn y ddwy ysgol yn elwa o'r cynnig yma gan y byddai'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gynnal y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn cael eu hailgyfeirio er budd disgyblion 11 i 16 oed sy'n cael mynediad at addysg statudol.

Effaith Debygol y Cynnig ar Ddisgyblion

Rydyn ni'n rhagweld na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor ar ddisgyblion a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig ar ddisgyblion yn gadarnhaol. Yn ddealladwy, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n ofnus ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr. Byddai hyn yn cael ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgylchwrwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff.

Byddai'r Cyngor yn darparu cyngor a chefnogaeth i aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl.

Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg ôl-16 i ddisgyblion chweched dosbarth a fynychodd Ysgol Gyfun Aberpennar yn flaenorol, mewn amgylchedd dysgu'r 21^{ain} ganrif, ymhlith manteision eraill, yn cynnig mynediad i ddisgyblion chweched dosbarth i ysgol sydd:

- Wedi'i dylunio gydag 'ardaloedd ar wahân' ar gyfer dysgu, sy'n annibynnol i'r dosbarthiadau ac sydd â choridorau sydd wedi'u dylunio'n ofalus.
- Wedi'i chysylltu â Wi-Fi, ac yn gwneud y gorau o dechnoleg fodern gydag ystafelloedd sydd ag iPads, sy'n galluogi i ddyfeisiau llechen gael eu defnyddio mewn caffis rhyngwyd.
- Â stiwdio recordio, ardal agored gyda thafunydd enfawr, campfa ac ardal ddawns.

Mae dosbarthiadau chweched dosbarth bach yn anhyfyw yn ariannol a, lle maen nhw'n bodoli, mae adnoddau a fwriedir ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol yn cael eu hailgyfeirio i gynnal y ddarpariaeth ôl-16. Mae hyn yn anghynladwy ac yn effeithio ar y cynnig addysgol i fyfyrwyr iau ac yn cyflwyno heriau cyllidebol sylweddol i'r ysgolion. O ganlyniad, bydd y cynnig yma hefyd yn gwella'r ddarpariaeth 11 i 16 yn y ddwy ysgol gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn cynyddu o ystyried y gwelliannau i hyfywedd ariannol y ddwy ddarpariaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu [hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig](#), sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, sy'n nodi bod hawl gan bob plentyn a pherson ifanc i'r canlynol:

1. Cael y dechrau gorau mewn bywyd.
2. Cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
3. Cael mwynhau'r iechyd gorau posibl a bod yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a rhag i neb gam-fanteisio arnyn nhw.
4. Cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
5. Cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.
6. Bod â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
7. Peidio â bod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma o fudd i blant a phobl ifanc yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

Fel y nodir yng [Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru \(Ail Argraffiad\) \(011/2018\)](#), mae'n ofynnol i ni gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydyn ni wedi llunio'r asesiad ac wedi'i atodi i'r Ddogfen Ymgynghori yma. Maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am effaith y cynnig ar ddisgyblion i'w gweld yn yr asesiadau effaith yma.

Effaith Debygol y Cynnig ar y Staff

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bwriad y Cyngor fyddai argymhell i Gorff Llywodraethu Ysgol Gymunedol Aberdâr fod unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion ôl-16, o dan lefel uwch arweinyddiaeth, yn cael eu neilltuo i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gyfun Aberpennar, yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, byddan nhw'n trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Byddai swyddogion Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gyfun Aberpennar a'u gwneud yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth personol sydd ar gael.

Gwybodaeth Estyn

Cafodd Ysgol Gyfun Aberpennar ei harchwilio gan Estyn ym mis Tachwedd 2018. Ar yr adeg honno, dyma oedd y dyfarniadau ar gyfer y meysydd arolygu allweddol:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Digonol ac angen gwella
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Digonol ac angen gwella
Addysgu a Phrofiadau Dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arwain a Rheoli	Digonol ac angen gwella

Argymhellodd Estyn hefyd welliannau i Ysgol Gyfun Aberpennar eu rhoi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Dyma oedd argymhellion Estyn:

Argymhellion	
1.	Gwella'r cynnydd y mae pob disgybl yn ei wneud mewn gwersi, gan gynnwys yn natblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.
2.	Gwella cydnerthedd disgyblion wrth ddysgu, a'u hymddygiad mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.
3.	Gwella ansawdd yr addysgu.
4.	Gwella ansawdd ac effaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.
5.	Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid.
6.	Rheoli cyllid yn gadarn i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb.

O ganlyniad i arolygiad Estyn ym mis Tachwedd 2018, roedd Estyn o'r farn bod angen adolygiad categori anstatudol gan Estyn mewn perthynas ag Ysgol Gyfun Aberpennar. Lluniodd Ysgol Gyfun Aberpennar Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (CGOA) i ddangos sut yr oedd yn mynd i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn. Yn dilyn gwaith monitro tymhorol gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a'r Cyngor, ym mis Mawrth 2021, barnwyd bod Ysgol Gyfun Aberpennar wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd. Fel y cyfryw, tynnodd Estyn Ysgol Gyfun Aberpennar oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen adolygiad categori anstatudol gan Estyn arnyn nhw.

Cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr arolygiad gan Estyn ym mis Mawrth 2018.

Ar yr adeg honno, dyma oedd y dyfarniadau ar gyfer y meysydd arolygu allweddol:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Digonol ac angen gwella
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Anfoddhaol ac angen gwelliant brys
Addysgu a Phrofiadau Dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Digonol ac angen gwella
Arwain a Rheoli	Digonol ac angen gwella

Argymhellodd Estyn welliannau i Ysgol Gymunedol Aberdâr eu rhoi ar waith hefyd er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Dyma oedd argymhellion Estyn:

Argymhellion	
1.	Gwella presenoldeb ac ymddygiad.
2.	Gwella ansawdd a chysondeb addysgu ac asesu.
3.	Gwella safonau a chynnydd disgyblion.
4.	Gwella trylwyredd ac effeithiolrwydd gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

O ganlyniad i arolygiad Estyn ym mis Mawrth 2018, roedd Estyn o'r farn bod angen gwelliant sylweddol mewn perthynas ag Ysgol Gymunedol Aberdâr. Lluniodd Ysgol Gymunedol Aberdâr Gynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i ddangos sut y byddai'n mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn. Yn dilyn gwaith monitro tymhorol gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd consortiwm Canolbarth y De a'r Cyngor, ym mis Hydref 2021, barnwyd bod Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd. O'r herwydd, tynnodd Estyn Ysgol Gymunedol Aberdâr o'r rhestru o ysgolion yr oedd angen eu gwella'n sylweddol.

Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn mis Medi 2026 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel y nodir isod:

1. **Safonau (Addysgu) (Addysgu a Dysgu)** – Mae mwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol gan ddosbarthiadau chweched dosbarth mwy, a byddai modd cronni'r rhain a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion unigol disgyblion yn well, ac felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion.
2. **Lles ac Agweddau at Ddysgu (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – Byddai symud disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu mwy o gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Gallai hefyd fod mwy o

hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a phrifio.

3. **Profiadau Addysgu a Dysgu (Addysgu a Dysgu)** – Byddai symud disgyblion o Ysgol Gyfun Aberpennar i greu chweched dosbarth mwy yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad. Gallai amgylchedd dysgu'r 21^{ain} ganrif hefyd roi rhagor o hyblygrwydd ac felly rhagor o ddewis ac amrywiaeth o ran profiadau dysgu'r disgyblion.
4. **Gofal, Cymorth ac Arweiniad (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – Byddai modd i amgylchedd dysgu'r 21^{ain} ganrif yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar ddatblygu ymhellach ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw. Mae gan Ysgol Gymunedol Aberdâr ardal fawr, bwrpasol yn benodol ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth sy'n cefnogi dysgu unigol ac yn annog gwella sgiliau cymdeithasol. Mae adeilad cwbl hygyrch a darpariaeth mannau hyblyg yn galluogi Ysgol Gymunedol Aberdâr i ymestyn ei harfer dda a hwyluso ymyraethau pellach, gan gynnwys ffyrdd o feithrin disgyblion yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â theuluoedd a'r gymuned leol.
5. **Arweinyddiaeth (a Rheoli) (Arwain a Gwella)** – Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn cael ei chefnogi gan adnoddau addas i'r diben sy'n briodol ar gyfer addysg yn yr 21^{ain} ganrif. Byddai'r holl ddisgyblion elwa o ardaloedd sy'n addas ac ysgogol o ran dysgu ac adnoddau ac offer y mae amgylchedd dysgu'r 21^{ain} ganrif yn ei gynnig. Byddai modd i ysgol â dosbarth chweched dosbarth mwy ddarparu mwy o gyfleoedd proffesiynol a chyfleoedd dilyniant ar gyfer y staff addysgu a staff cymorth, a mwy o gyfle ar gyfer modelau o arweinyddiaeth wedi'u dosrannu.

Goblygiadau Ariannol y Cynnig

O dan y trefniadau presennol, mae'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn aneffeithlon a byddai modd gwella'r arlwy pynciau sy'n cael eu cynnig i nifer o ddisgyblion. Mae rhai cyrsiau ôl-16 yn cael eu dyblygu'n ddiangen rhwng y ddau chweched dosbarth, ond eto mae'r dewis o gyrsiau ôl-16 wedi'u cyfyngu ac mae maint dosbarthiadau mewn rhai meysydd pwnc yn rhy fach. Mae hyn yn golygu bod cyllid addysg gwerthfawr yn cael ei wario ar gostau staff ychwanegol ac isadeiledd er y byddai'n well defnyddio'r cyllid yma at ddibenion ansawdd y profiad addysg.

Mae dosbarthiadau chweched dosbarth bach yn anhyfyw yn ariannol ac, lle maen nhw'n bodoli, caiff adnoddau a fwriedir ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol eu hailgyfeirio i sybsideiddio'r ddarpariaeth ôl-16. Ar gyfer y flwyddyn academaidd presennol, mae'r diffyg rhwng y cyllid a ddyrannwyd i'r ddarpariaeth ôl-16 a'r gost wirioneddol o ddarparu'r ddarpariaeth ôl-16 yn fwy na £125,000 yn Ysgol Gyfun Aberpennar a thros £76,000 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae hyn yn anghynladwy, yn effeithio ar y cynnig addysgol i ddisgyblion iau, ac yn cyflwyno heriau cyllidebol sylweddol i'r ysgolion.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, mae'r gyllideb alldro a osodwyd gan y Cyrff Llywodraethu priodol yn y ddwy ysgol yn golygu roedd gan Ysgol Gyfun Aberpennar falans dros ben o £17,000 a bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr falans dros ben o ychydig yn llai na £500,000. Serch hynny, mae ysgolion yn wynebu

pwysau ariannol cynyddol yn sgil dyfarniadau cyflog ar gyfer staff, sy'n sylweddol uwch na'r cynnydd yn y gyllideb a roddwyd i Lywodraeth Leol, yn ogystal â chynnydd o ran costau ynni a heriau ariannol eraill o ran chwyddiant. O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd balansau dros ben y ddwy ysgol yn llawer llai erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/2025; rhagwelir y bydd gan Ysgol Gyfun Aberpennar falans dros ben o tua £9,000, a rhagwelir y bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr falans dros ben o tua £166,000.

Ar hyn o bryd, cyfanswm y cyllid wedi'i ddyrannu fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar yw £5,709 a'r cyllid wedi'i ddyrannu fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Aberdâr yw £5,676. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r cyllid amcangyfrifedig wedi'i ddyrannu fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gostwng ychydig i £5,635, a byddai'n cynyddu yn Ysgol Gyfun Aberpennar i £5,775.

Ni fyddai unrhyw oblygiadau cyllid cyfalaf i roi'r cynnig ar waith, a byddai arbedion refeniw a fyddai'n deillio o gau'r chweched dosbarth yn cael eu hail-fuddsoddi i gefnogi addysg plant a phobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf. Byddai unrhyw oblygiadau o ran refeniw, gan gynnwys cyllideb ddirprwyedig yr ysgol ac unrhyw gynnydd posibl mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol, yn cael eu nodi wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen ac yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (ffydd) cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i bob disgybl o oed ysgol statudol (blwyddyn 7 i 11) sy'n derbyn addysg uwchradd.

Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu o fis Medi 2025:

- Bydd y Cyngor yn cynnal ei feini prawf pellter dewisol presennol ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd ac yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i bob disgybl cynradd sy'n byw **1.5 milltir** neu ymhellach o'u hysgol addas agosaf.
- Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r meini prawf pellter statudol a nodir yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 mewn perthynas â disgyblion oed uwchradd (blynyddoedd 7 i 11), a darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i bob disgybl uwchradd sy'n byw **3 milltir** neu ymhellach o'u hysgol addas agosaf.
- Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant i ddisgyblion ôl-16 sy'n byw **3 milltir** neu ymhellach o'u hysgol neu goleg addas agosaf.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor:

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y bydd gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol er mwyn mynychu darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Gwybodaeth o ran Tir ac Adeiladau

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai safle presennol Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau i ddarparu addysg uwchradd i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed. Gan mai proses ymgynghori statudol gychwynnol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yw hon, does dim penderfyniadau wedi'u gwneud eto ynglŷn â dyfodol rhai o'r adeiladau hŷn ar y safle. Serch hynny, byddai hyfywedd ac argaeledd y safle ysgol ehangach at ddibenion addysgol eraill yn cael eu harchwilio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, nodi opsiynau i ddarparu lleoedd ychwanegol i liniaru pwysau cynyddol o ran niferoedd disgyblion ysgolion arbennig.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Nodwch na fyddwn ni'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu. Caiff ond ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Caiff unrhyw sylwadau mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi eu nodi'n ddiennw yn Adroddiad yr Ymgynghoriad. Mae gofyn i chi ddychwelyd Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad wedi'u cwblhau i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif Canolfan Menter y Cymoedd Parc Hen Lofa'r Navigation Abercynon CF45 4SN	NEU	CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk
--	------------	--

Y cynnig:

Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?	Ydw		Nac ydw		Ddim yn siŵr	
<i>Ticiwch</i>						

Nodwch y rhesymau dros eich dewis.

Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?

Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Nodwch unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried (atodwch ddalennau ychwanegol os oes angen).

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gwarcheidwad disgybl yn yr ysgol(ion) sy'n cael ei henwi, Llywodraethwr yr ysgol(ion) sy'n cael ei henwi ac ati.)

Enw (dewisol):

Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 5pm 17 Ionawr 2025, fan bellaf.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwmo i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i fod yn rhoi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd (Ymgynghori) yma:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/serviceprivacynotices/ChiefExecutives/ConsultationPrivacyNotice.aspx>

ac

<https://www.rctcbc.gov.uk/DiogeluData>

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein gweithwyr, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisiau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran mynediad i'n gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hyn wrth ysgrifennu eich atebion yn y bylchau gwag. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig. Gweler y dolenni isod:

www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth

www.rctcbc.gov.uk/diogeludata

Oedran

1. Beth yw'ch oedran chi?

- 16-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65-74
- 75+
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Rhyw

2. Ydych chi'n:

- Benyw
- Gwryw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn cael ei ofyn maes o law.

Hunaniaeth Rhywedd

3. A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un rhyw a gofrestrwyd adeg eich genedigaeth?

- Ydy
- Nac ydy, nodwch eich hunaniaeth rhywedd:

- Mae'n well gen i beidio â dweud

Cyfeiriadedd Rhywiol

4. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- Deurywiol
- Dyn hoyw
- Menyw hoyw/Lesbiaidd
- Heterorywiol/Syth
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

Hunaniaeth Genedlaethol

5. Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- Prydeinig
- Cernywig
- Seisnig
- Gwyddelig
- Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Albanwr/Albanes
- Cymro/Cymraes
- Arall (rhowch ddisgrifiad): _____
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Ethnigrwydd

6. Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

- Arabaidd
- Asiaidd: Prydeinig
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Bangladeshi
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Tsieineaidd
- Asiaidd: Cernywig
- Asiaidd: Saesneg
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Indiaidd

- Asiaidd: Gwyddelig
 - Asiaidd: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
 - Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Pacistanaidd
 - Asiaidd: Albanaidd
 - Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Dwyrain Asiaidd - Arall
 - Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: De Asiaidd - Arall
 - Asiaidd: Cymreig
 - Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Arall (rhowch ddisgrifiad):
-

- Du: Prydeinig
 - Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd
 - Du neu Ddu Brydeinig Caribïaidd
 - Du: Cernywig
 - Du: Saesneg
 - Du: Gwyddelig
 - Du: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
 - Du: Albanaidd
 - Du: Cymreig
 - Du, Du Prydeinig, neu Ddu Affricanaidd: Arall (rhowch ddisgrifiad):
-

- Sipsiwn Seisnig
- Sipsiwn Gwyddelig
- Teithiwr Gwyddelig
- Sipsiwn Albanaidd
- Teithiwr Albanaidd
- Sipsiwn Cymreig

- Cymysg/Lluosog: Affricanaidd a Charibïaidd
- Cymysg/Lluosog: Du Prydeinig a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Du Affricanaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Du Caribïaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Dwyrain Asiaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: De Asiaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

- Roma
- Sinti

- Gwyn: Prydeinig
- Gwyn: Cernywig
- Gwyn: Seisnig
- Gwyn: Sipsiwn
- Gwyn: Gwyddelig
- Gwyn: Teithiwr Gwyddelig
- Gwyn: Gwyddelig Gogledd Iwerddon

- Gwyn: Albanaid
- Gwyn: Cymreig
- Gwyn: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

- Mae'n well gen i beidio â dweud

Os Grŵp Ethnig arall neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch y diffiniad yma: _____

Anabledd

7. Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol*'.

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Crefydd neu gred

8. Beth yw eich crefydd/cred?

- Bwdhydd
- Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- Sikh
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: _____

Cyfrifoldebau rhoi gofal

9. Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- Nac ydw
- Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Beichiogrwydd a mamolaeth

10. Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

11. Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog

12. Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

- Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma